# Ordinhad 2
# Y Canghellor a'r Dirprwy Gangellorion

**Corff Cymeradwyo:** Y Cyngor

**Dyddiad Cymeradwyo**: 10 Gorffennaf 2020

**Perchennog y polisi:** Ysgrifennydd y Brifysgol

**Cyswllt ar gyfer y polisi:** Dr Gwawr Taylor, saastaff@aber.ac.uk / 01970 62 2048

**Statws y polisi:** Diwygiedig:

**Fersiwn:** 3.1

**Dyddiad adolygu diwethaf:** Gorffennaf 2023

**Dyddiad adolygu nesaf:** Gorffennaf 2025

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Saesneg. / This document is also available in English.

**ORDINHAD 2**
**Y CANGHELLOR A'R DIRPRWY GANGELLORION**

1. Penodi'r Canghellor a'r Dirprwy Gangellorion

    1. Penodir y Canghellor gan y Cyngor a bydd yn dal y swydd am gyfnod o bum mlynedd.

    2. Penodir Dirprwy Ganghellor gan y Cyngor a bydd yn dal y swydd am gyfnod o dair blynedd.

    3. Pan fydd angen penodi Canghellor neu Ddirprwy Ganghellor, bydd y Cyngor yn penodi pwyllgor dewis i ystyried y penodiad. Hysbysebir y swydd yn allanol.

    4. Y canlynol fydd y pwyllgor i ddewis Canghellor:

        1. Y Dirprwy Gangellorion;

        2. Aelodau o'r Pwyllgor Enwebiadau.

    5. Y canlynol fydd y pwyllgor i ddewis Dirprwy Ganghellor:

        1. Y Canghellor;

        2. Y Dirprwy Gangellorion (ac eithrio unrhyw Ddirprwy Gangellorion sy'n ymadael);

        3. Aelodau o'r Pwyllgor Enwebiadau.

    6. Cadeirydd y Cyngor fydd yn cadeirio cyfarfodydd y pwyllgor dewis, oni bai bod y Cadeirydd am gael ei ystyried am y swyddogaeth. Mewn achos o'r fath bydd yr unigolyn dan sylw yn ymneilltuo o'r pwyllgor dewis, a'r Canghellor neu'r Dirprwy Ganghellor sy'n bresennol ac sydd wedi gwasanaethu am y cyfnod hwyaf fydd yn cadeirio.

    7. Clerc y Cyngor fydd Ysgrifennydd y pwyllgor dewis

    8. Bydd y pwyllgor dewis yn ymgynghori fel y bo'n briodol ac yn cyflwyno ei argymhelliad i’r Cyngor.

    9. Pum aelod o'r pwyllgor dewis fydd yn ddigon am gworwm i benodi'r Canghellor neu Ddirprwy Ganghellor.

2. Amodau Ailbenodi

    1. Bydd y Canghellor ar dir i'w ailbenodi am un tymor pellach, sef hyd at bum mlynedd arall, a dim ond am gyfanswm o ddau dymor y caiff wasanaethu .

    2. Bydd Dirprwy Ganghellor ar dir i'w ailbenodi am un tymor pellach, sef hyd at dair blynedd arall, a dim ond am gyfanswm o ddau dymor y caiff wasanaethu.

    3. Bydd pwyllgor dewis a benodir gan y Cyngor (gweler 1) yn cael ei gynnull i ystyried ailbenodi i ail gyfnod ac i wneud argymhelliad i'r Cyngor. Ni fydd unrhyw Ddirprwy Ganghellor a ystyrir am ail gyfnod yn bresennol yn y pwyllgor dewis.

3. <u>Swyddogaethau'r Canghellor</u>

Bydd y Canghellor, yn rhinwedd ei swydd er anrhydedd, yn cyflawni unrhyw swyddogaethau a bennir gan y Cyngor, gan gynnwys:

1. Cadeirio'r Llys;
2. Llywyddu yn Ymgynulliadau Graddio'r Brifysgol.

4. <u>Swyddogaethau'r Dirprwy Gangellorion</u>

Bydd Dirprwy Gangellorion y Brifysgol, yn rhinwedd eu swydd er anrhydedd, yn cyflawni unrhyw swyddogaethau a bennir gan y Cyngor, yn ogystal ag:

1. unrhyw swyddogaethau a ddirprwyir gan y Canghellor; a

2. holl swyddogaethau'r Canghellor yn absenoldeb y Canghellor neu os bydd y swydd honno'n wag.

5. <u>Ymddiswyddo</u>

Caiff y Canghellor neu Ddirprwy Ganghellor ymddiswyddo drwy roi rhybudd ysgrifenedig i Glerc y Cyngor.

6. <u>Diswyddo</u>

Os bydd y mwyafrif o blith y Canghellor, y Dirprwy Gangellorion (ac eithrio'r unigolyn dan sylw), Cadeirydd y Cyngor a'r Is-Ganghellor yn tystio bod y Canghellor, neu Ddirprwy Ganghellor, yn eu tyb hwy:

1. wedi bod yn analluog i raddau helaeth i gyflawni ei swydd yn y deuddeg mis blaenorol; neu
2. wedi methu â chyflawni ei swydd, neu wedi'i hesgeuluso, i raddau helaeth; neu
3. wedi ymddwyn mewn modd nad yw'n addas i'r Canghellor / Dirprwy Ganghellor;

Yna, ar ôl rhoi cyfle i'r unigolyn dan sylw i gyflwyno ei achos, gwneir argymhelliad i'r Cyngor i ddiswyddo'r unigolyn dan sylw. Diswyddir yr unigolyn dan sylw os bydd cynnig i wneud hynny yn cael ei basio gan fwyafrif o holl aelodau'r Cyngor.